OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 No. 2022

# Rheoliadau Grant Gweithredwyr Gwasanaethau Bysiau (Cymru) 2002

**Cymhwyster i gael grant**

**3.**—(1) Mae gwasanaeth bysiau yn wasanaeth bysiau cymwys at ddibenion adran 152 Deddf Trafnidiaeth 2000 (grantiau i weithredwyr gwasanaethau bysiau) os yw'n perthyn i un o'r dosbarthau canlynol—

(a) gwasanaeth lleol sy'n cael ei ddarparu neu'i sicrhau—

(i) gan awdurdod addysg lleol yn unol â threfniadau a wnaed o dan adran 509 o Ddeddf Addysg 1996(**1**), neu

(ii) ar gyfer personau sydd wedi cyrraedd trigain oed neu bersonau anabl,

ac y mae'r amodau a restrir ym mharagraff (2) wedi'u bodloni mewn perthynas â hwy;

(b) gwasanaeth lleol, nad yw'n wasanaeth a ddisgrifir ym mharagraff (1)(a), ac sy'n defnyddio cerbyd a addaswyd i gario mwy nag wyth o deithwyr (neu gerbyd llai, ond dim ond os yw'r gwasanaethau yn cael eu gweithredu yn unol ag amserlen) ac y mae'r amodau a restrir ym mharagraff (3) wedi'u bodloni mewn perthynas ag ef;

(c) gwasanaeth bysiau sy'n cael ei ddarparu gan weithredwr y mae trwydded o dan adran 19 o Ddeddf Trafnidiaeth 1985 wedi ei rhoi iddo ac sy'n dal mewn grym, a hwnnw'n wasanaeth y mae'r amodau a restrir ym mharagraff (4) wedi'u bodloni mewn perthynas ag ef.

(2) Yr amodau y mae paragraff (1)(a) yn cyfeirio atynt yw—

(a) bod seddau ar y cerbyd sy'n cael ei ddefnyddio i ddarparu'r gwasanaeth ar gael, fel arfer, i aelodau o'r cyhoedd yn gyffredinol a bod yr aelodau hynny yn defnyddio'r gwasanaeth yn rheolaidd;

(b) bod y mannau aros (ac eithrio'r mannau y mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu'n bennaf iddynt neu ohonynt) wedi'u lleoli mewn mannau lle byddant yn debygol o gael eu defnyddio yn rhesymol aml gan aelodau o'r cyhoedd yn gyffredinol;

(c) bod yr aelodau hynny o'r cyhoedd yn gallu gwneud taith unigol rhwng unrhyw ddau fan aros trwy dalu pris tocyn nad yw'n fwriadol yn eu rhwystro rhag defnyddio'r gwasanaeth;

(ch) bod yr aelodau hynny yn gallu medru talu'r pris tocyn mewn man ac mewn ffordd nad yw'n fwriadol yn eu rhwystro rhag defnyddio'r gwasanaeth; a

(d) bod trefniadau wedi'u gwneud sy'n rhoi cyfle rhesymol i aelodau o'r cyhoedd yn gyffredinol gael gwybod am fodolaeth y gwasanaeth, yr amserau y mae ar waith, a'r mannau y mae'n eu gwasanaethu.

(3) Yr amodau y mae paragraff (1)(b) yn cyfeirio atynt yw—

(a) bod o leiaf hanner y lle ar y cerbyd sy'n cael ei ddefnyddio i ddarparu'r gwasanaeth ar gael, fel arfer, i aelodau o'r cyhoedd yn gyffredinol a bod y gwasanaeth yn cael ei ddefnyddio'n rheolaidd gan yr aelodau hynny;

(**1**) 1996 p.56.

(b) bod y mannau aros wedi'u lleoli mewn mannau lle byddant yn debygol o gael eu defnyddio yn rhesymol aml gan aelodau o'r cyhoedd yn gyffredinol;

(c) bod yr aelodau hynny yn gallu gwneud taith unigol rhwng unrhyw ddau fan aros trwy dalu pris tocyn nad yw'n fwriadol yn eu rhwystro rhag defnyddio'r gwasanaeth;

(ch) bod aelodau felly o'r cyhoedd yn medru talu'r tâl tocyn mewn man ac mewn ffordd sydd ddim yn eu rhwystro'n fwriadol rhag defnyddio'r gwasanaeth;

(d) nad oes ar y cerbyd sy'n cael ei ddefnyddio i ddarparu'r gwasanaeth unrhyw arwydd na disgrifiad sydd wedi'i fwriadu neu sy'n debygol o roi'r argraff bod y gwasanaeth ond ar gael ar gyfer categori penodol o berson; ac

(dd) bod trefniadau wedi'u gwneud sy'n rhoi cyfle rhesymol i aelodau o'r cyhoedd yn gyffredinol gael gwybod am fodolaeth y gwasanaeth, yr amserau y mae ar waith a'r mannau y mae'n eu gwasanaethu.

(4) Yr amodau y mae paragraff (1)(c) yn cyfeirio atynt yw bod y gwasanaeth yn cael ei ddefnyddio yn gyfangwbl neu yn bennaf gan—

(a) personau sydd wedi cyrraedd 60 mlwydd oed;

(b) personau anabl;

(c) personau sy'n cael cymhorthdal incwm o dan adran 124 o Ddeddf Cyfraniadau a Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol 1992(**2**);

(ch) personau sy'n cael lwfans ceisio gwaith o dan Ddeddf Ceiswyr Gwaith 1995(**3**);

(d) pobl sydd yn dioddef rhywfaint o allgáu cymdeithasol oherwydd diweithdra, tlodi neu ffactorau economaidd eraill, digartrefedd, pellenigrwydd daearyddol, afiechyd, neu arferion crefyddol neu ddiwylliannol;

(dd) personau sy'n credu na fyddai'n ddiogel iddynt ddefnyddio unrhyw wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus i deithwyr; neu

(e) gofalwyr neu pobl o dan 16 mlwydd oed sy'n teithio gydag unrhyw rai o'r blaenorol.

(**2**) 1992 p. 4.
(**3**) 1995 p. 18.